**GWYBODAETH BWYSIG AR GYFER BUSNESAU YN ABERTAWE**

Annwyl Berchennog Busnes

Yn dilyn llwyddiant y llynedd, mae'n bleser gennym gyhoeddi y bydd Cyfres Para Treiathlon y Byd Abertawe 2024 yn dychwelyd **ddydd Sadwrn 22 Mehefin 2024.** Mae'r digwyddiad rhyngwladol hwn yn rhoi sylw arbennig i Abertawe a Chymru, gyda chyfranogwyr yn dod o bob rhan o'r byd i gystadlu.

**Beth yw Cyfres Para Treiathlon y Byd?**

Y gyfres hon yw'r lefel uchaf o gystadlu paratreiathlon rhyngwladol, a chynhelir y digwyddiad ei hun o fewn y cyfnod i ennill lle yng Ngemau Paralympaidd Paris 2024. Mae Abertawe yn darparu'r ras gartref i baratreiathletwyr Prydeinig elît wrth iddynt geisio ennill lle yn y gemau.

Bydd llawer i'w fwynhau yn y digwyddiad am ddim hwn gan gynnwys adloniant byw, pentref y digwyddiad a digwyddiadau nofio, beicio a rhedeg ar gyfer unigolion ag anabledd neu nam, a phlant.

**Sut bydd hyn yn effeithio arnaf fel busnes?**

Er mwyn cynnal y digwyddiad yn ddiogel bydd rhai ffyrdd ar gau a bydd mynediad cyfyngedig o amgylch yr Ardal Forol ac Oystermouth Road yn ystod y penwythnos. Sylwer bod y Cyngor a Treiathlon Prydain yn gweithio'n galed iawn i sicrhau cyn lleied o darfu â phosib.

**Bydd e-bost dilynol yn amlinellu union amserau a gwybodaeth ychwanegol am barcio a mynediad yn cael ei anfon atoch ym mis Mai 2024.**

**Sut gallaf gymryd rhan?**

Os oes gennych ddiddordeb mewn dod yn bartner neu noddi'r digwyddiad, cysylltwch â: Sara Pardoe: hello@socialvalue.online.

Gallwch gael rhagor o wybodaeth am y digwyddiad, sut i gymryd rhan a chyfleoedd gwirfoddoli yn https://www.britishtriathlon.org/events/major-events/world-triathlon-para-series-swansea. Gallwch hefyd gael y newyddion diweddaraf drwy ddilyn sianeli cyfryngau cymdeithasol Treiathlon Prydain.

Os oes gennych unrhyw ymholiadau am y digwyddiad, mae croeso i chi e-bostio swansea@britishtriathlon.org.

Cofion cynnes

Treiathlon Prydain